**Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR TRWYDDEDU**
**a gynhaliwyd yn Hybrid - Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron / o bell drwy gynhadledd fideo ddydd Iau, 16 Mawrth 2023**

**YN BRESENNOL;** Y Cynghorydd Paul Hinge (Cadeirydd), y Cynghorwyr Amanda Edwards, Endaf Edwards, Eryl Evans, Keith Evans, Wyn Evans, Gwyn James, Ann Bowen Morgan, Caryl Roberts a John Roberts

**Hefyd yn bresennol:**

**Swyddogion yn bresennol**: Mrs Carwen Evans – Rheolwr Corfforaethol, Diogelu'r Cyhoedd, Polisi a Pherfformiad, Miss Anne-Louise Davies, Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu, Mr Gareth Rees – Uwch Swyddog Trwyddedu, Ms Nia Jones, Rheolwr Corfforaethol – Gwasanaethau Democrataidd, Mrs Dana Jones, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Safonau

(9:30am-10:55am)

1 **Cyflwyniad**
Croesawodd y Cadeirydd yr holl Aelodau i'r cyfarfod.

**Ymddiheuriadau**
Dim.

2 **Datgelu Buddiannau Personol/Buddiannau sy'n Rhagfarnu**
Dim.

3 **Ethol Cadeirydd y Pwyllgor ar gyfer gweddill blwyddyn fwrdeistrefol 2022/23 a 2023/24**
Cynigiwyd gan y Cynghorydd Gwyn James ac eiliwyd gan y Cynghorydd Keith Evans a PHENDERFYNWYD yn unfrydol fod y Cynghorydd Paul Hinge yn cael ei ethol yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer gweddill blwyddyn fwrdeistrefol 2022/23 a 2023/24.

**Ethol Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer gweddill blwyddyn fwrdeistrefol 2022/23 a 2023/24**
Cynigiwyd gan y Cynghorydd Paul Hinge ac eiliwyd gan y Cynghorydd John Roberts a PHENDERFYNWYD yn unfrydol fod y Cynghorydd Gwyn James yn cael ei ethol yn Is-gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer gweddill blwyddyn fwrdeistrefol 2022/23 a 2023/24.

4 **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 06 Hydref 2022 ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion hynny**
PENDERFYNWYD cadarnhau bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 06 Hydref 2022 yn rhai cywir.

**Materion yn codi**

**5** **Diweddariad Cyffredinol**

Ystyriwyd yr Adroddiad ar y diweddariad Cyffredinol. Cyflwynwyd yr adroddiad er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau ar faterion perthnasol, mewn perthynas â Deddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005.

Rhoddwyd y diweddariad canlynol ar faterion sy'n gysylltiedig â Deddf Trwyddedu 2023:-

- Ceisiadau lle'r oedd gwrthwynebiad (Adolygiadau/Apeliadau)
- *Licensing SAVI* (y Fenter Diogelwch a Bregusrwydd)
- Y canllawiau diwygiedig a gyhoeddwyd o dan adran 182, Deddf Trwyddedu 2003
- Ymgynghoriad - Ymestyn Oriau Trwyddedu - Coroni'r Brenin Siarl
- Perfformiad Blynyddol y Tîm Trwyddedu - Adroddiad Cyffredinol

Gofynnodd y Rheolwr Safonau Masnach a Thrwyddedu am adborth gan yr Aelodau ar y paneli a gynhaliwyd yn rhithiol. Roedd gan yr aelodau bryderon oherwydd roedd problemau cysylltu yn ystod un o'r paneli a dywedasant y dylid cynnal y paneli wyneb yn wyneb. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Corfforaethol - Gwasanaethau Democrataidd nad oedd ei gwasanaeth yn gallu cefnogi system hybrid ar gyfer y paneli hyn, a nododd, oherwydd cyfyngiadau cyllidebol a'r Strategaeth Gorfforaethol i leihau'r ôl troed Carbon, y dylid cynnal y cyfarfodydd hyn dros Zoom yn unig. Os oes anawsterau technegol, dylid gohirio'r cyfarfod.

PENDERFYNWYD
(i) nodi'r adroddiad er gwybodaeth;
(ii) nodi ers cyhoeddi'r agenda bod y Papur Gwyn ar y Datganiad Ysgrifenedig: Ymgynghoriad ar y Bil Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat (Cymru) wedi'i gyhoeddi ar 09 Mai 2023. Byddai'r Gwasanaeth yn paratoi ar gyfer ymateb a gofynnir i banel o Aelodau ystyried yr ymateb cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Byddai holl Aelodau'r Pwyllgor yn cael copi o'r ymateb;
(iii) cyhoeddwyd yng Nghyllideb Gwanwyn 2023 y byddai'r llywodraeth yn cynyddu'r cyfraddau tollau o dan y strwythur tollau diwygiedig ar gyfer cynhyrchion alcohol a gyflwynir o 1 Awst 2023 ymlaen yn unol â'r Mynegai Prisiau Manwerthu. Mae hyn yn cynnwys yr holl gynhyrchion alcoholaidd a gynhyrchir yn y DU neu a fewnforir i'r DU. Byddai'r llywodraeth hefyd yn cynyddu gwerth Rhyddhad Cwrw Casgen o 5% i 9.2% ar gyfer cynhyrchion cwrw a seidr cymwys ac o 20% i 23% ar gyfer gwin, cynhyrchion eples eraill, a gwirodydd cymwys. Daw'r holl newidiadau i rym o 1 Awst 2023 ymlaen;
(vi) y dylai'r cyflwyniad ar y *Licensing SAVI* (y Fenter Diogelwch a Bregusrwydd) gael ei rannu gyda'r Aelodau er gwybodaeth drwy'r Gwasanaethau Democrataidd ac y dylai'r Cyngor hyrwyddo'r fenter hon, dylid hefyd rhoi gwybod i'r Tîm Cyfathrebu am y fenter er mwyn rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd drwy'r cyfryngau cymdeithasol;

(v) y dylai'r gwasanaeth cynllunio gael gwybod am yr Egwyddor Cyfrwng Newid yn 14.66 ac y byddai Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu hefyd yn derbyn hyfforddiant ar faterion cynllunio a oedd yn effeithio ar drwyddedu.

6 **Adroddiad ar Gyfraith Martyn – Y Ddyletswydd Diogelu**

Ystyriwyd yr adroddiad ar Gyfraith Martyn – y Ddyletswydd Diogelu. Darparwyd y wybodaeth ganlynol:-

- Cefndir
- Beth fydd Cyfraith Martyn yn ei wneud?
- Pa Safleoedd / Lleoliadau fydd yn cael eu cynnwys?
- Sut fydd yn gweithio?
- Beth am y lleoliadau sy'n cael eu rhedeg gan wirfoddolwyr?
- A fydd hyn yn effeithio ar hygyrchedd?
- Sut fydd Cyfraith Martyn yn cael ei gorfodi?

Yn dilyn cwestiynau o'r llawr, a barn ar y baich biwrocratiaeth ar wirfoddolwyr, CYTUNWYD i nodi'r adroddiad er gwybodaeth.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar**

**Cadeirydd:**________________

**Dyddiad:**__________________